



www.furthermaths.org.uk/wales



Ysgol Uwchradd Cei Connah
Connah's Quay High School

Astudiaeth
Achos

Ysgol Uwchradd
Cei Connah

Cyfeiriad

Golftyn Lane
Connah's
Quay
Deeside
Flintshire
CH5 4BH

Nifer
myfyrwyr
16 – 18
oed
2013/14



Astudiaeth Achos:

Myfyriwr – Jessica Akins

Cyflwyno Mathemateg Pellach:

Astudiais yn chweched dosbarth Ysgol Uwchradd Cei Connah; astudiais dair Lefel A yn ogystal â Bagloriaeth Cymru. Cefais athro anhygoel a ddaeth a mathemateg yn fyw i mi ac a ysbrydolodd fi i barhau gyda mathemateg ar ôl TGAU. Rwyf am ddilyn gyrfa mewn gwaith actiwaraid a thrwy astudio Mathemateg yn y Brifysgol rwy'n gobeithio dilyn yr yrfa hon yn y dyfodol. Roeddwn i'n meddwl trwy gwblhau Mathemateg Bellach Safon UG, byddai'n rhoi mwy o ddealltwriaeth o'r cwrs Prifysgol i mi. Siaradais ag amryw o athrawon yn yr ysgol fy mod yn awyddus i wneud cwrs Mathemateg Pellach UG a cefais fy nghofrestru ar Raglen Gymorth Mathemateg Bellach, ar ôl iddynt ymchwilio iddo. Siaradais hefyd â myfyrwyr eraill a oedd yn gwneud yr un cwrs prifysgol a dywedsont fod Mathemateg Pellach wedi eu helpu yn eu blwyddyn gyntaf i ddeall y darlithoedd yn well. Wrth i'r pwnc fynd mwy cymhleth mae fy angerdd wedi tyfu hyd yn oed mwy. Rwy'n mwynhau'r her o ddatrys problemau cymhleth ac mae gennyf ddi-ddordeb arbennig mewn Calculus.

Cwblheais y cwrs Mathemateg Bellach ar ôl ysgol gyda rhai myfyrwyr eraill ac un o fy athrawon mathemateg; fe astudiom ni'r modiwlau, M1, FP1 ac FP2 mewn dosbarth ar-lein. Rydym hefyd yn mynd i wahanol ddiwrnodau adolygu ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer ein cyrsiau. Roedd y dosbarthiadau ar-lein yn wahanol iawn i'r hyn yr wyf wedi arfer, er roeddwn yn teimlo bod gennym system gymorth yno a gallwn ofyn i'r athro am gymorth os nad oeddwn yn deall y gwaith. Rwy'n credu ei fod hefyd wedi fy helpu i ddeall pynciau yn gyflymach gan fod cyfyngiad amser a rhoddodd hefyd gipolwg ar ddysgu annibynnol i mi; cawsom waith cartref yn rheolaidd ac arbrofion diwedd pwnc. Golyga hyn bod llawer o

astudio annibynnol, sydd wedi gwella fy hyder gyda'r pwnc.

Manteision astudio Mathemateg Bellach?

Roedd y cwrs yn ddefnyddiol iawn, ac rwy'n credu y byddai o fudd i lawer o fyfyrwyr eraill i'w gwblhau gan y gall helpu â'r gofynion gradd ar gyfer ceisiadau Prifysgol. Er nad oeddwn yn gwneud y lefel A llawn, trwy gwblhau'r Safon UG mae gennyf fwy o ddeallusrwydd o'r pwnc. Pe bawn yn gwybod am y peth ym Mlwyddyn 12, ni fyddwn wedi oedi cyn cychwyn ac wedyn byddwn wedi gallu cwblhau'r Lefel A llawn. Rwyf hefyd yn credu drwy gwblhau'r cwrs fe helpodd i mi ennill gradd uwch yn fy Mathemateg Lefel A sef A*, cefais B mewn Mathemateg Pellach Safon UG. Rwyf wedi cael fy nerbyn i mewn i fy newis cyntaf sef Prifysgol Manceinion a byddaf yn dechrau ym mis Medi. Rwyf hefyd yn credu bod gan y prifysgolion a wnes gais iddynt ddiddordeb yn y ffordd y mae'r cwrs yn gweithio gan ei fod yn heriol i wneud rhywbeth a oedd yn wahanol iawn i ddosbarthiadau arferol. Nid nes y byddwch yn dechrau ymweld â diwrnodau agored y prifysgolion y byddwch yn sylweddoli faint y maent yn gwerthfawrogi Mathemateg Bellach a pha mor gystadleuol yw'r pwnc.